

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 08.06.16 - yn Y Ganolfan, Llwyngwrl

Presennol: Geraint Edwards (Cadeirydd), Dylan Thomas, Huw Davies, Kevin Goodchild, Karen Shellis, Eleri Williams, Ian Williams, Geraint Micah, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes iawn i aelod newydd y Cyngor Cymuned – Geraint Micah.

2. **Ymddiheuriadau:** Avril Garrod, Keith Carroll.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd ar yr 11.05.16 fel rhai cywir.
Cynnig – Huw Davies Eilio – Karen Shellis Arwyddwyd – Geraint Edwards.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (11.05.16):**

a) **“Slide” yn y Cae Chwarae** – Keith Carroll a Geraint Edwards yn adrodd eu bod wedi trwshio'r “slide” yn y Cae Chwarae. Archwiliad ROSPA wedi ei drefnu ar gyfer Mis Mehefin.

5. **Gohebiaeth:**

1. **Cyngor Gwynedd:**

- a) Rhaglen Waith ar gyfer Mis Mehefin 2016.
- b) Adroddiad Archwilio Llifogydd a Dŵr am y llifogydd yn Llwyngwrl ar y 9fed o Ionawr 2016.
- c) Diwygio'r Côt Ymddygiad i Aelodau - mae angen cyhoeddi rhybudd mewn papur newydd yn datgan fod y Côt Ymddygiad wedi ei ddiwygio a bod copi ar gael i'r cyhoedd i'w weld - Cyngor Gwynedd yn cynnig trefnu hyn **Penderfyniad** → anfon copi o gofnod y Cyngor Cymuned yn cadarnhau fod y newidiadau yma wedi eu mabwysiadu a gofyn i Sion Huws, Cyfreithiwr Cyngor Gwynedd drefnu cyhoeddi'r rhybudd.

2. **Parc Cenedlaethol Eryri:**

- a) Er gwybodaeth – rhestr o'r amseroedd a dyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- b) Gwahoddiad i'r Cyngor Cymuned fynychu cyfarfod gyda chynrychiolwyr y Parc Cenedlaethol Eryri.
3. Cyngor Cymuned Arthog wedi cysylltu i ofyn am ddau lythyr o gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned i :-
 - a) **Lloyd's Coaches** - i gefnogi eu cais i geisio cael “Bws 28” i fynd heibio'r Ysbyty yn Nhywyn nawr - gan fod Y Ganolfan lechyd newydd bellach wedi symud i Ysbyty Tywyn.
 - b) **Cyngor Tref Tywyn** - i gefnogi ei cais i geisio cael “by-pass” o amgylch tref Machynlleth. **Penderfyniad** → llythyrau i'w gyrru i gefnogi'r ddau gais yma.

6. **Materion Cynllunio:**

- a) **Rhif Cais: NP5/69/382** – Tynllech Cottage, Llangelynnin – estyniad deulawr a ffenestr dormer i'r cefn, ail adeiladu ports ffrynt, a dymchwel simdde
→ cais wedi ei ganiatáu gan y Parc Cenedlaethol Eryri.
- b) **Rhif Cais: NP5/69/390** - Ffarm Llabwst, Rhoslefain - trosi adeilad amaethyddol segur i uned llety gwylia, adeiladu garage a storfa goed ar wahân, a gosod tanc septig
→ dim sylwadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri gan y Cyngor Cymuned.

7. Adroddiad Ariannol:

Derbyniwyd Adroddiad Mis Mai 2016 yn gywir.

Cynnig – Ian Williams **Eilio** – Karen Shellis **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.

1. Archwiliad Blynyddol 2015-16:

- a) Archwiliad Mewnol wedi ei gwblhau gan Mr R D Roberts ar y 27.05.16 – dim sylwadau wedi eu derbyn.
 - b) Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31.03.16 wedi ei hardystio gan y Clerc.
 - c) Ffurflen Flynyddol wedi ei chyflwyno i'r Cyngor Cymuned i'w ystyried a'i chymeradwyo (Datganiadau Cyfrifyddu 2015-16, a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 1+2).
 - d) Ffurflen wedi ei llofnodi gan y Cadeirydd, yn barod i'w anfon i'r archwilydd allanol – BDO LLP.
2. Ad-daliad TAW 2015-16 wedi ei dderbyn gan HMRC = £385.25.
 3. Rhodd i'r PCC tuag at mynwentau'r plwyf = siec o £500.00 i'w yrru i Rev L Ford, Y Ficerdy, Llwyngwril. Penderfyniad wedi ei wneud eisoes fod y Cyngor Cymuned yn rhoi cyfraniad ariannol yn flynyddol tuag at gynnal a chadw mynwentau'r plwyf. Dyddiad y cyfarfod = 10.02.16, cyfeirnod y cofnodion = 7b.

8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:

- a) Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn:
Adroddodd Eleri Williams fod adroddiad da wedi ei dderbyn gan Estyn ynglŷn â'r ysgol.
Hefyd, adroddodd fod cyflwr y tô yn well rŵan, a'i fod ddim yn gollwng bellach.

9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol: Dim yn bresennol.

10. Unrhyw Fater Arall:

1. Materion Cymunedol Cyngor Gwynedd

- a) **Biniau Halen:** Adroddodd Kevin Goodchild fod Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y byddent yn amnewid bob bin halen sydd ddim yn addas i'w defnyddio.
- b) **Biniau Ysbwriel ag ailgylchu yn Rhoslefain (ger y lloches bws):** dim ateb wedi ei dderbyn ynglŷn â'n ymholiad a gafodd ei anfon i Gyngor Gwynedd Mis Chwefror
Penderfyniad → llythyr i'w yrru i Gyngor Gwynedd i ofyn a oes posib trefnu i wagu'r bin mawr gwyrdd yma'n wythnosol, a hefyd cael fwy o foxes glas ailgylchu gan eu bod yn cael eu gorlenwi cyn y diwrnod maent i fod i gael eu gwagu.
- c) **Gwrych ar ochr y ffordd yn Rhoslefain:** mae gwrych o'r ardd yr hen Swyddfa Bost yn Rhoslefain wedi gordyfu ac yn culhau'r briffordd A493, ac yn gwneud hi'n anodd i ddod allan i'r briffordd o Ffordd Parlla
Penderfyniad → a fyddai'n bosib i Gyngor Gwynedd drefnu i'w gweithwyr dorri'r gwrych yma?
- d) **Gordyfiant ar safle'r Hen Ysgol Gynradd Llwyngwril:** gwrych wedi tyfu'n wyllt ac yn culhau'r palmant
Penderfyniad → a fyddai'n bosib i Gyngor Gwynedd drefnu i'w gweithwyr dorri'r gwrych yma?
- e) **Cae chwarae ar safle'r Hen Ysgol, Llwyngwril:** gan fod neb yn torri'r gwair bellach, mae'r safle'n edrych yn flêr
Penderfyniad → gofyn am ganiatâd Cyngor Gwynedd i ffarmwr lleol dorri a belio'r gwair yn rhad ac am ddim!

2. **Er gwybodaeth:** AGM Y Ganolfan – Nos Fercher 15.06.16. Croeso i bawb.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher - 13.07.16 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

Arwyddwyd

Cadeirydd Dyddiad